

Mae rhai o ddisgwyliadau'r FFLIRh ar gyfer Blwyddyn 5 yn cynnwys:

Llafaredd

Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau

- Esbonio gwybodaeth a syniadau, archwilio a defnyddio ffyrdd o argyhoeddi, *e.e. defnydd o eirfa, ystum, cynorthwyon gweledol.*
- Siarad yn eglur gan ddefnyddio iaith ffurfiol a thafu'r llais yn effeithiol i gynulleidfa fawr, *e.e. digwyddiad i rieni/gofalwyr, cyflwyniad i ymwelwyr.*
- Gwrando ar eraill, gofyn cwestiynau ac ymateb i'r cynnwys a safbwyntiau'r siaradwr.
- Cyfrannu i drafodaeth grŵp, gan gymryd rhywfaint o gyfrifoldeb dros gyflawni'r dasg yn dda, *e.e. cyflwyno syniadau perthnasol, crynhoi.*

Darllen

Canfod, dethol a defnyddio gwybodaeth

- Defnyddio ystod o strategaethau i ddeall ystyr geiriau a brawddegau, gan gynnwys gwybodaeth am ffoneg, gwreiddiau geiriau, teuluoedd geiriau, cystrawen, trefn testun a gwybodaeth flaenorol am y cyd-destun.
- Llithr ddarllen (sganio) i ddod o hyd i fanylion penodol gan ddefnyddio trefnyddion graffig a thestunol, *e.e. is-benawdau, diagramau.*

Ymateb i'r hyn a ddarllenwyd

- Dangos dealltwriaeth o'r prif bwyntiau a'r manylion arwyddocaol mewn testunau, *e.e. map meddwl gan osod syniadau yn nhrefn pwysigrwydd, siart lif sy'n nodi proses.*
- Adnabod ac archwilio syniadau a gwybodaeth sydd o ddiddordeb iddynt.

Ysgrifennu

Trefnu syniadau a gywbodaeth

- Ysgrifennu gyda'r diben yn amlwg gan ddangos ystyriaeth i'r darlennydd, *e.e. drwy ddefnyddio geirfa addas a dyfeisiau cyflwyno.*
- Diwygio a gwella'u gwaith ysgrifennu, gan esbonio pam maent wedi gwneud newidiadau.

Ysgrifennu'n gywir

- Defnyddio geirfa briodol, gan gynnwys geiriau ac ymadroddion pwnc bendol.
- Defnyddio'r ystod lawn o atalnodi er mwyn tywys y darlennydd mewn brawddegau cymhleth, *e.e. atalnod, pwyntiau bwled, dyfynodau a chollnod i ddynodi perchnogaeth (e.e. llyfrau'r bechgyn).*

Cefnogi plant ym Blwyddyn 5

Taflen i rieni
Helpu eich plentyn gyda llythrennedd

Cefnogi eich plentyn ym Mlwyddyn 5:

Llafaredd

- ✓ Gallech ofyn i'ch plentyn ganfod gwybodaeth benodol i chi ar gyfrifiadur neu dabled. Unwaith y byddan nhw wedi canfod yr wybodaeth yma, gofynnwch iddyn nhw roi crynodeb lafar i chi o'r wybodaeth y maen nhw wedi ei darganfod.
- ✓ Anogwch eich plentyn i gymryd rhan mewn trafodaethau teulu, e.e. yn ystod prydau bwyd, ac arweiniwch nhw i wrando'n ofalus ar yr hyn y maen pobl eraill yn ei ddweud ac i ymateb yn briodol drwy ofyn cwestiynau neu egluro pam y maen nhw'n cytuno neu'n anghytuno â barn rhywun arall.
- ✓ Crëwch gyfleoedd i'ch plentyn chwarae rôl eu hoff berson ym myd chwaraeon, canu, teledu ac ati. Anogwch eich plentyn i ganfod gwybodaeth am y person o'u dewis ac yna i ddefnyddio'r 'gadair goch' i brofi eu gwybodaeth am y person – maen nhw'n eistedd yn 'y gadair goch' ac yn ceisio ateb y cwestiynau y byddwch yn eu gofyn am eu hoff berson,
- ✓ Byddech yn gallu gwyllo rhaglen deledu neu ffilm gyda'ch plentyn, ac yna gofyn cwestiynau iddyn nhw am y cynnwys, a'u cael i fynegi eu barn a'u hoffter.
- ✓ Siaradwch â'ch plentyn am yr erthyglau yn eich papur newydd lleol neu genedlaethol neu am y newyddion rydych chi wedi ei wyllo ar y teledu.
- ✓ Anogwch eich plentyn i gymryd rhan mewn trafodaethau ynghylch cynllunio a threfnu teithiau diwrnod, gwyliau, ymweld ag aelodau eraill o'r teulu, ac ati.

Darllen

- ✓ Anogwch eich plentyn i ddechrau clwb darllen adref, gan wahodd ffrindiau neu aelodau o'r teulu i ddod yn aelodau. Gallai aelodau o'r clwb ddewis 'llyfr yr wythnos', trefnu fforwm i drafod llyfrau a darlenniadau byw o'u hoff lyfrau, ac ati.
- ✓ Peidiwch ag anghofio fod angen darllen geiriau ar sgrin (a pherfformio), wrth gymryd rhan mewn gemau fel 'carioci', sef y math o gemau y mae plant wrth eu bodd yn eu chwarae â ffrindiau a theulu.
- ✓ Mae sefydlu gemau, e.e. ar y *Wii*, yn golygu darllen a deall cyfarwyddiadau, felly gwnewch yn siŵr fod eich plentyn yn gallu gnweud hyn ei hun (gan gofio mai'r plentyn sy'n dysgu'r oedolion i wneud hyn fel arfer).
- ✓ Dangoswch rysâit i'ch plentyn ag ewch drwyddo gyda'ch gilydd. Gofynnwch i'ch plentyn ddarllen y rysâit i chi wrth i chi goginio, a dywedwch wrth eich plentyn am yr angen i wneud pob cam mewn trefn arbennig. Gadewch i'ch plentyn eich helpu i gymysgu'r cynhwysion. Byddai hefyd yn gallu ysgrifennu ryseitiau eraill o lyfr coginio neu o'r rhyngwyd, y byddai yn hoffi eu defnyddio.
- ✓ Trafodwch â'ch plentyn, y posibilrwydd o ddechrau hobi newydd. Unwaith y byddwch wedi cytuno ar hobi addas sydd o ddiddordeb gwirioneddol i'ch plentyn, anogwch ef/hi i ddarganfod cyn gymaint ag sydd yn bosibl o wybodaeth am eu hobi newydd, ar-lein ac mewn llyfrau. Byddai'n gallu gwneud nodiadau digidol o'r wybodaeth y mae wedi ei chanfod.
- ✓ Anogwch eich plentyn i ddarllen storïau a deunyddiau ffeithiol addas i frodyr neu chwirydd iau.

Ysgrifennu

- ✓ Anogwch eich plentyn i greu posau croeseiriau neu chwileiriau ei hun, ar gyfer ffrindiau a theulu. Bydd hyn yn gymorth i ddatblygu geirfa a sgiliau geiriadur.
- ✓ Mae *Scrabble* yn gêm sillafu glasurol sydd yn siŵr o gael y teulu yn siarad â'i gilydd ac efallai yn arwain at ychydig o anghytuno!
- ✓ Chwaraewch gyda anagramau er mwyn helpu eich plentyn gyda phatrymau a sillafu, e.e. gwneud cymaint o eiriau ag y gallwch eu gwneud o eiriau hirach neu enwau lleoedd.
- ✓ Gallwch ysbrydoli eich plentyn i ysgrifennu stori eu teulu. Gallech gasglu ffotograffau o berthnasau o gyn gymaint o genedlaethau a phosibl a helpu eich plentyn i greu coeden deulu neu linell amser anffurfiol, gan gynnwys cyn gymaint o straeon cofiadwy ag sydd yn bosibl o fewn y broses. Hefyd, byddech chi a'ch plentyn yn gallu dechrau llyfr stori deulu, Anogwch eich plentyn i ysgrifennu rhai o'ch hoff anecdodau a'u gosod mewn llyfr, ochr yn ochr â ffotograffau perthnasol neu chofroddion. Gall eich plentyn ychwanegu mwy o dudalennau wrth ddysgu mwy am hanes y teulu.
- ✓ Anogwch eich plentyn i gario llyfr nodiadau er mwyn ysgrifennu syniadau a phethau diddorol y mae yn eu gweld neu'n eu clywed yn ystod y dydd. Mae arsylwi'n weithredol ar y byd yn hanfodol bwysig i fod yn awdur dawnus.
- ✓ Helpwch eich plentyn i gychwyn dyddlyfr. Yn gyntaf, gallech drafod y gwahanol bynciau y gellir ysgrifennu amdany'n nhw, megis 'cael ffrind newydd', neu drafod gweithgaredd ysgol neu gartref sydd newydd gael ei gwblhau. Hefyd, byddech chi'n gallu cadw dyddlyfr eich hun, gan gymharu'r cynnwys ar ddiwedd yr wythnos. Byddech chi a'ch plentyn yn gallu darllen yn uchel, rannau o'ch dyddlyfrau yr hoffech eu rhannu ag eraill.

- ✓ Gofynnwch i'ch plentyn gasglu hen ffotograffau neu luniau o gylchronau ac anogwch nhw i greu stori ar sail y delweddau hyn, neu eu cael i greu storiâu ar gyfer ffotograffau y maen nhw wedi eu cymryd o bethau sy'n dal eu sylw. Byddech yn gallu cynnig her iddyn nhw greu stori ar gyfer llyfr lluniau nad yw'n cynnwys geiriau, gan annog eich plentyn i ddehongli'r lluniau a welant gyda chwestiynau, e.e. "Beth sy'n mynd ymlaen fan hyn? Pam mae golwg bryderus ar y cymeriad hwn?" Gallwch hefyd gychwyn stori eich hun ac yna annog eich plentyn i gwblhau'r stori. Ar ôl i'ch plentyn ddisgrifio beth ddylai ddigwydd nesaf, gallech gymryd eich tro i ychwanegu digwyddiadau at y stori.
- ✓ Byddech yn gallu neilltuo amser a man arbennig i ysgrifennu bob dydd. Mae llawer o deuluoedd yn mwynhau amser darllen yn ddyddiol, a byddech chi'n gallu neilltuo amser ysgrifennu mewn ffordd debyg – hyd yn oed os mai dim ond am ddeg munud yn unig y bydd hyn. Os nad ydy eich plentyn yn ysgrifennu eto, gallech gymryd mantais ar y cyfle hwn i drawsgrifio ei syniadau. Yn ychwanegol, anogwch eich plentyn i ddod o hyd i fan arbennig ar gyfer ysgrifennu – man sydd yn eu hysbrydoli i ysgrifennu neu feddwl: gallai fod yn eu gwely, wrth fwrdd y gegin, yn eu hoff gadair, neu hyd yn oed yn yr awyr agored.